# YR ATODLEN

Rheoliad 10

## Rheolau ynghylch cyfarfodydd a thrafodion y Ganolfan

**1.** Cynhelir cyfarfod cyntaf y Ganolfan ar ddiwrnod ac mewn man y caiff y Cynulliad ei bennu a'r cadeirydd fydd yn gyfrifol am gynnull y cyfarfod.

**2.**—(1) Caiff y cadeirydd alw cyfarfod y Ganolfan ar unrhyw adeg ond rhaid iddo sicrhau bod o leiaf dri chyfarfod o'r Ganolfan yn cael eu cynnull yn y cyfnod sy'n dechrau ar 1 Ebrill yn unrhyw flwyddyn ac sy'n dod i ben ar 31 Mawrth yn y flwyddyn ganlynol.

(2) Os bydd y cadeirydd yn gwrthod galw cyfarfod wedi i gais at y diben hwnnw, a lofnodwyd gan o leiaf draean o'r aelodau, gael ei gyflwyno iddo, neu os nad yw'n gwrthod, ond nad yw'n galw cyfarfod o fewn saith diwrnod ar ôl i gais o'r fath gael ei gyflwyno iddo, gall y traean hwnnw neu fwy o'r aelodau alw cyfarfod yn ddiymdroi.

(3) Cyn pob cyfarfod o'r Ganolfan, rhaid i hysbysiad o'r cyfarfod, yn nodi'r busnes y bwriedir ei drin ynddo, ac wedi'i lofnodi gan y cadeirydd neu gan swyddog o'r Ganolfan a awdurdodwyd gan y cadeirydd i lofnodi ar ei ran gael ei draddodi i bob aelod ac i'r Cynulliad, neu gael ei anfon drwy'r post i breswylfa arferol aelod o'r fath neu i'r cyfryw gyfeiriad arall a hysbyswyd o flaen llaw gan yr aelod fel ei fod ar gael i aelod o'r fath o leiaf saith niwrnod clir cyn y cyfarfod.

(4) Ni fydd diffyg cyflwyno'r hysbysiad i unrhyw aelod neu i'r Cynulliad yn effeithio ar ddilysrwydd cyfarfod.

(5) Yn achos cyfarfod sy'n cael ei alw gan aelodau oherwydd diffyg y cadeirydd, rhaid i'r hysbysiad gael ei lofnodi gan yr aelodau hynny ac ni chaiff unrhyw fusnes ei drin yn y cyfarfod heblaw'r hyn a bennir yn yr hysbysiad.

(6) Bydd gan gynrychiolydd o'r Cynulliad yr hawl i fynychu cyfarfodydd y Ganolfan neu unrhyw bwyllgor neu is-bwyllgor a benodir yn unol â rheoliad 9.

(7) Ni fydd trafodion y Ganolfan yn annilys drwy unrhyw swydd wag yn ei haelodaeth neu drwy unrhyw ddiffyg ym mhenodiad aelod.

**3.**—(1) Mewn unrhyw gyfarfod o'r Ganolfan, y cadeirydd, os yw'n bresennol, fydd yn llywyddu.

(2) Os yw'r cadeirydd yn absennol o'r cyfarfod, yr is- gadeirydd, os oes un wedi'i benodi ac os yw'n bresennol, fydd yn llywyddu.

(3) Os yw'r cadeirydd a'r is-gadeirydd yn absennol, bydd yr aelodau sy'n bresennol yn dewis pwy a fydd yn llywyddu.

**4.** Rhaid i bob cwestiwn mewn cyfarfod o'r Ganolfan gael ei benderfynu gan fwyafrif pleidleisiau'r aelodau sy'n bresennol ac yn pleidleisio y cwestiwn ac, os yw'r pleidleisiau yn gyfartal, bydd gan y person sy'n llywyddu ail bleidlais a fydd yn bleidlais fwrw.

**5.** Rhaid cofnodi enwau'r cadeirydd, yr aelodau a phersonau eraill sy'n bresennol yn y cyfarfod.

**6.** Ni chaiff unrhyw fusnes ei drin mewn cyfarfod o'r Ganolfan onid yw'r nifer sy'n bresennol ddim llai na thraean aelodaeth gyfan y Ganolfan

**7.** Caiff cofnodion trafodion cyfarfod y Ganolfan eu llunio a'u cyflwyno er mwyn cael cytundeb arnynt yng nghyfarfod nesaf y Ganolfan, lle cânt, os cytunir arnynt, eu llofnodi gan y person sy'n llywyddu.